Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cyllido, Rheoli a Monitro) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **15 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cyllido, Rheoli a Monitro) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar reolaeth ariannol o'r polisi amaethyddol cyffredin a'i fonitro. Mae swyddogaeth sylfaenol i'r Rheoliad hwn gan yr UE o ran nodi'r fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu'r PAC.
- Erthygl 11(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor, gan bennu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth sydd o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae'r offeryn hwn yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru yn ddilyffethair. Ceir dwy swyddogaeth hefyd sy'n cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdodau Datganoledig eraill na ellir ond eu harfer ganddynt ar y cyd.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol fel eu bod yn arferadwy ar y cyd â Gweinidogion Cymru yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, bod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**
Bydd yr offeryn hwn yn sicrhau bod deddfwriaeth "Lorweddol" PAC yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol ledled y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd y "cywiriadau" deddfwriaethol priodol a gyflwynir gan yr offeryn hwn yn cynnal y sefyllfa fel y mae, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, ac ni fyddant yn cael unrhyw effaith amlwg ar lawr gwlad ar ffermwyr na rheolwyr tir.

Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid polisi, ond maent yn sicrhau y bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn parhau i weithio'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/6rx7NS3s

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.